***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 924

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2011

## RHAN 1

Darpariaethau rhagarweiniol

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ebrill 2011.

### Cymhwyso

**2.** Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy, y mae Gweinidogion Cymru yn—

(a) awdurdod trwyddedu priodol(**1**) ar ei gyfer (a dylid darllen y cyfeiriad yn erthygl 25(2) at "yr awdurdod trwyddedu" yn unol â hynny);

(b) yn awdurdod gorfodi(**2**) ar ei gyfer (a dylid darllen cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at "yr awdurdod gorfodi" yn unol â hynny).

### Dehongli

**3.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

mae i "hysbysiad o fwriad" ("*notice of intent*")—

(a) mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yr ystyr a roddir gan erthygl 5(1);

(b) mewn perthynas â chosb ariannol newidiol, yr ystyr a roddir gan erthygl 14(1);

mae i "hysbysiad terfynol" ("*final notice*")—

(a) mewn perthynas â chosb ariannol benodedig, yr ystyr a roddir gan erthygl 8(3);

(b) mewn perthynas â chosb ariannol newidiol, yr ystyr a roddir gan erthygl 17(4);

ystyr "sancsiwn sifil" ("*civil sanction*") yw cosb ariannol benodedig neu gosb ariannol newidiol(**3**).

---

(**1**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adrannau 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. Mae i "rhanbarth glannau Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh inshore region" yn adran 322(1) o'r Ddeddf.

(**2**) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardaloedd y mae Gweinidogion Cymru yn Awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer. at ddibenion y Gorchymyn hwn (*gweler* adran 114(2) o'r Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

(**3**) *Gweler* adran 115(1) o'r Ddeddf ar gyfer diffinad o'r termau hyn.